COFNODION CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth, 22 Mai 2001
**Amser:** 9.00am
**Lle:** Ystafell Gynadledda'r Llywydd

**Presennol:** John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Dim.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

2.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn pryderu am y tuedd diweddar i wneud newidiadau cymhleth i'r cofnodion drafft. Dywedodd y byddai'n croesawu awgrymu newidiadau pan fyddai rhywun am gofnodi pwynt penodol a oedd wedi ei golli. Er hynny, prif ddiben y cofnodion oedd cofnodi penderfyniadau'r Pwyllgor, nid cofnodi pob agwedd ar y trafodion yn fanwl.

### BC155-01 (terfynol)

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu gwedd derfynol. Cafwyd un newid bach. Gan na chafwyd sylwadau eraill, byddai'r cofnodion yn cael eu cyfieithu'n barod at eu cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

### BC167-01 (drafft)

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf drafft. Awgrymwyd rhai newidiadau bach a fyddai'n cael eu cynnwys yn y fersiwn terfynol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi

3.1 **Paragraff 3.4** – Nododd y Cadeirydd na fyddai Panel y Cadeiryddion yn cyfarfod tan 26 Mehefin a holodd a fyddai'n ddefnyddiol i Weinidogion drafod y rhaglen ddeddfwriaethol yn uniongyrchol â chadeiryddion y pwyllgorau pwnc. Dywedodd Marie Knox fod Gweinidogion eisoes yn cynnal trafodaethau â chadeiryddion ynghylch dulliau o roi cyfle i'r pwyllgorau pwnc ymwneud â'r rhaglen ddeddfwriaethol. Cadarnhaodd y Trefnydd y byddai'n bresennol yn y cyfarfod ar 26 Mehefin i drafod yn uniongyrchol â'r cadeiryddion sut y gellid rhoi rhan weithredol i'r pwyllgorau yn y broses o raglennu deddfwriaeth y Cynulliad. **Gweithredu: Y Cadeirydd i roi adroddiad ar ôl cyfarfod Panel y Cadeiryddion ar 26 Mehefin.**

3.2 **Paragraff 4.8** – Nododd Marion Stapleton fod materion cyfreithiol y bu'n rhaid i'r Gweinidog eu cyfeirio'n ôl i Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas â Gorchymyn Rheoliadau Deunyddiau Porthi (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2001. Yr oedd hyn wedi arwain at oedi cyn trosglwyddo'r Gorchymyn i'r Uned Fusnes ac wedyn ei gyhoeddi ar y Fewnrwyd. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n dda ganddo weld pob Offeryn Statudol yn cael ei gyhoeddi ar y Fewnrwyd erbyn amser cinio dydd Gwener ddeng niwrnod cyn y bwriedir ei ystyried yn y Pwyllgor Busnes er mwyn i'r Aelodau gael cyfle i roi sylwadau llawn i'w Rheolwyr Busnes. Dywedodd Marion Stapleton y byddai'r Uned Fusnes yn dymuno parchu'r amserlen hon er y byddai adegau pan na fyddai'n bosibl gwneud hynny oherwydd dyddiadau cychwyn brys. Yr oedd y Cadeirydd yn deall y sefyllfa hon a gobeithiai y gallai'r Uned Fusnes fabwysiadu'r arfer hwn ar ôl y toriad hanner tymor.

3.3 **Paragraff 5.3** – Byddai'r Swyddfa Gyflwyno yn ailgyhoeddi'r canllawiau am ddeisebau ac yn eu hanfon ymlaen at y Dirprwy Lywydd er mwyn iddo eu codi yng Ngrŵp Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad.

3.4 **Paragraff 5.4** – Dosbarthodd Andrew George ddrafft o ffurflen gyflwyno newydd ar gyfer Cwestiynau'r Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor i ystyried hon ynghyd â'r canllawiau diwygiedig ar Gwestiynau o dan eitem 5 ar yr agenda.

## 4. Is-ddeddfwriaeth

### Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) 2001 (BC151-01 a anfonwyd i'r Pwyllgor Busnes ar gyfer y cyfarfod ar 8 Mai)

4.1 Dywedodd Nerys Arch y byddai modd cynnwys y diwygiadau a oedd i'w gweithredu gan y Rheoliadau presennol mewn copi o'r prif reoliadau. Yr oedd y prif reoliadau eisoes ar gael yn electronig; mae'r "gynulleidfa" ar gyfer y rheoliadau yn arbennig o eang; ac mae'r rheoliadau'n arbennig o gymhleth. Byddai'r fersiwn hwn yn cael ei gyflwyno ar y cyd â'r cyngor gweinyddol a gellid trefnu iddo fod ar gael ar y Rhyngrwyd. Pwysleisiodd, serch hynny, mai cydgrynhoad gweinyddol fyddai'r fersiwn diwygiedig. Ni fyddai'n edrych fel

Offeryn Statudol ffurfiol ac ni fyddai'n gyfreithiol rwymol. Hysbysodd Nerys Arch y Pwyllgor fod canllawiau dwyieithog helaeth wedi'u cyhoeddi ar y prif reoliadau. Ar ôl i'r Rheoliadau presennol gael eu gwneud, byddai llythyr yn cael ei anfon at fudd-ddeiliaid yn rhoi canllawiau ar effaith y diwygiadau. Gellid anfon yr cydgrynhoad gweinyddol gyda'r llythyr hwnnw. Yr oedd canllawiau wedi'u cydgrynhoi i fod i gael eu dosbarthu yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn gan yr is-adran bolisi. Er mwyn cydymffurfio ag adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, dylai'r argyfnerthiad gweinyddol o'r Rheoliadau fod ar gael yn ddwyieithog. Byddai angen i'r cyfieithwyr neilltuo 20 niwrnod i'w gyfieithu a byddai angen i'r cyfreithwyr neilltuo 5 niwrnod i wirio'r cyfieithiad. O'r herwydd, ni fyddai'r fersiwn dwyieithog llawn yn barod cyn Medi 2001 fan gynharaf. Yr oedd angen i ddarparu testunau dwyieithog cyfreithiol rwymol gael blaenoriaeth. Cytunodd y Pwyllgor i gyhoeddi cydgrynhoad gweinyddol o'r prif Reoliadau a'r Rheoliadau presennol ar y Fewnrwyd ar yr amod y gellid darparu'r cyfieithiad Cymraeg cyn gynted â phosibl. **Gweithredu: Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol i ddechrau ar y cydgrynhoi ac i ddarparu cyfieithiad Cymraeg cyn gynted â phosibl.**

**Gorchmynion Llywodraeth Leol:**

4.2 Wrth gyfeirio at yr eitemau o ddeddfwriaeth Llywodraeth Leol a oedd i'w hystyried gan y Pwyllgor y diwrnod hwnnw, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn deall yr ymgynghorwyd â'r pwyllgorau pwnc am yr egwyddorion cyffredinol a oedd yn gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth ond nad oeddent wedi cael rhoi sylwadau ar y cynigion manwl yn Gorchmynion eu hunain. Pwysleisiodd yr angen i gael cydbwysedd rhesymol rhwng yr amser yr oedd ei angen i ddrafftio deddfwriaeth a'r amser a roddid i'r Cynulliad i graffu ar gynigion deddfwriaethol, o gofio'r amser a aeth heibio ers pasio Deddf Llywodraeth Leol 2000. Dywedodd y Trefnydd fod rhestr o'r Gorchmynion wedi ei hanfon at y Pwyllgor Llywodraeth Leol gan roi cyfle iddynt eu hystyried yn fanwl os oedd unrhyw bryderon. Yr oedd yn teimlo bod y Cabinet wedi cynnwys y Pwyllgor ac Aelodau eraill yn ddigonol yn y broses o lunio polisi yn ystod y cyfnod drafftio. Dywedodd Nerys Arch fod y broses ymgynghori wedi dechrau ym mis Ionawr a bod Aelodau'r Cynulliad i gyd wedi cael copïau o'r Offerynnau Statudol er mwyn rhoi sylwadau ar eu cynnwys.

4.3 Dywedodd Nerys Arch y byddai cyfle i'r Aelodau drafod yr Offerynnau Statudol yn y cyfarfodydd llawn ar 19 a 21 Mehefin mewn dadl am y strwythurau gwleidyddol a'r fframwaith moesegol ar gyfer Llywodraeth Leol a gâi eu gweithredu drwy'r Gorchmynion. Byddai'r ddadl hon yn cael ei chynnal cyn cynnig cyfansawdd i gymeradwyo'r holl Orchmynion gyda'i gilydd. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig bod yr Aelodau'n cael ystyried egwyddorion cyffredinol y Gorchmynion yn ogystal â chael diwygio Gorchmynion unigol yn ôl yr angen. Ar ôl hynny, cytunwyd y câi Aelodau gyflwyno cynigion i dynnu Gorchmynion penodol o'r casgliad cyflawn er mwyn eu hystyried a phleidleisio arnynt yn unigol, gan adael y gweddill yn y cynnig cyfansawdd er mwyn cynnal pleidlais arnynt gyda'i gilydd.

**Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn) (Rhif 1) (Cymru) 2001**

4.4 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC169-01 a oedd yn darparu cyngor gan Sue Essex, Gweinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Gofynnodd William Graham i'r Gorchymyn gael ei anfon at Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i'w ystyried. Gofynnodd Jocelyn Davies am ddadl mewn cyfarfod llawn ond yr oedd yn fodlon gadael i'r Gorchymyn fynd at y pwyllgor os oedd amser ar gael. Byddai Nerys Arch yn cynghori'r Cadeirydd y tu allan i'r Pwyllgor ynghylch yr amserlen ar gyfer dod â'r Gorchymyn i rym. **Yn ddiweddarach, penderfynodd y Dirprwy Lywydd y dylai'r Gorchymyn drafft gael ei gyfeirio i Bwyllgor Pwnc yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a rhagnododd y dylai'r pwyllgor adrodd ar y drafft cyn pen pedair wythnos.**

4.5 Nododd y Pwyllgor Busnes y papurau canlynol a oedd yn darparu cyngor gan Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ynghylch ymdrin â'r Gorchmynion. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchmynion drafft i'r pwyllgorau pwnc a chytunasant y dylent ddilyn y weithdrefn gyflym. **Yn ddiweddarach, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchmynion i bwyllgorau pwnc.**

**Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001** (BC170-01)

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2001** (BC171-01)

**Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Gweithrediaeth) (Cymru) 2001** (BC172-01)

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001** (BC173-01)

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001** (BC174-01)

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001** (BC175-01)

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001** (BC176-01)

**Rheoliadau Cod Ymddygiad (Cyflogeion Anghymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001** (BC177-01)

**Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001** (BC178-01)

**Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001** (BC179-01)

**Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Engrheifftiol) (Cymru) 2001** (BC180-01)

**Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001**
(BC181-01)

**Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001** (BC182-01)

**Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001** (BC183-01)

**Gorchymyn y Comisiynydd Lleol yng Nghymru (Ymchwiliadau Safonau) 2001** (BC184-01)

**Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001** (BC185-01)

**Rheoliadau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru a Chomisiynydd Lleol yng Nghymru (Swyddogaethau a Threuliau) 2001**
(BC186-01)

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ynghylch gweithdrefnau

5.1 Cyflwynodd Andrew George bapur BC187-01 a oedd yn cynnwys canllawiau diwygiedig ar Gwestiynau'r Cynulliad. Dywedodd fod drafft cyntaf y canllawiau diwygiedig wedi'i roi gerbron y Pwyllgor Busnes ym mis Mawrth. Yr oedd y drafft diweddaraf yn cymryd i ystyriaeth nifer o awgrymiadau adeiladol a oedd wedi codi o drafodaethau â'r Aelodau a'u staff cymorth. Y newid mwyaf arwyddocaol a gynigid oedd lleihau nifer y cwestiynau a ddeuai i'r brig yn nidoliad y Swyddfa Gyflwyno i 15. Mae'n bosibl y byddai hyn yn cael gwared ar yr angen i gynnwys blwch ticio ar y ffurflen gyflwyno ar gyfer tynnu'n ôl gwestiynau a fu'n llwyddiannus yn y didoliad ond nad oedd yn debygol y caent eu cyrraedd. Os oedd y Pwyllgor yn fodlon, byddai'r canllawiau diwygiedig yn cael eu cyflwyno i'r Llywydd cyn eu gosod gerbron y Cynulliad i'w cymeradwyo. Dywedodd William Graham fod ei grŵp yn cefnogi'n llwyr y broses adolygu a'r argymhellion a wnaethpwyd.

5.2 Cwestiynodd Marion Stapleton baragraff 2.7 o'r Canllawiau a oedd yn ymdrin ag atebion i gwestiynau ysgrifenedig. Yr oedd yn teimlo bod y disgwyliad y byddai cwestiynau'n cael eu hateb cyn pen pum niwrnod gwaith yn anhyblyg, oherwydd bod Gweinidogion weithiau'n gorfod dychwelyd atebion i'w hailddrafftio. Yr oedd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar swyddogion a oedd, yn aml, yn gorfod anfon ateb dros dro neu ddarparu ateb yn hwyrach na'r diwrnod y gofynnwyd amdano. Yr oedd y Pwyllgor yn teimlo

ei bod yn bosibl mabwysiadu gweithdrefnau mwy hyblyg o fewn telerau Rheol Sefydlog 6.34. Cytunwyd y dylai'r canllawiau gael eu hadolygu fel eu bod yn esbonio y byddai'r Uned Fusnes yn parhau i ymdrechu i ateb cwestiynau ysgrifenedig cyn pen pum niwrnod ond y câi Aelodau nodi dyddiad diweddarach pan ddisgwylient ateb. Gellid cynnwys blwch ar y ffurflen gyflwyno er mwyn i'r Aelodau gael gofyn am ddyddiad ateb. Fodd bynnag, nid oedd angen mwyach am flwch ticio i dynnu cwestiwn yn ôl pan fyddai'n methu â chyrraedd y 15 uchaf. **Gweithredu: Y Swyddfa Gyflwyno i ddiwygio'r Canllawiau a'r ffurflen gyflwyno a dod â'r mater yn ôl i'r Pwyllgor Busnes.**

5.3 Ystyriodd y Pwyllgor Atodiad 2 a oedd yn crynhoi rhai o'r materion a oedd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr ymgynghori ynghylch gweithdrefnau ar gyfer cwestiynau i Brif Weinidog Cymru. Gan gyfeirio at baragraff 8, dywedodd y Trefnydd ei bod bob amser yn fwriad gan y Prif Weinidog ateb cwestiynau ar faterion cyfredol a'i fod yn croesawu'r argymhelliad hwn. Dywedodd Jocelyn Davies fod yr Aelodau wedi'i chael yn anodd geirio cwestiynau ar gyfer portffolio presennol y Prif Weinidog ac y byddent yn croesawu'r cyfle i'w holi ynghylch holl amrediad cyfrifoldebau'r Cabinet. Nododd y Cadeirydd y gellid geirio cwestiynau mewn modd a fyddai'n caniatáu gofyn cwestiynau atodol ynghylch materion ehangach ac y byddai'r Swyddfa Gyflwyno'n rhoi cymorth yn y maes hwn. Cefnogodd y Pwyllgor gynnig y Trefnydd y dylai ef drafod y mater â'r Prif Weinidog. **Gweithredu: Y Trefnydd i godi'r mater â'r Prif Weinidog.**

## <u>6. Pwyllgorau</u>

Dim

## <u>7. Busnes at y dyfodol</u>

### Busnes yr wythnos

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC188-01, a oedd yn amlinellu'r busnes y cytunwyd arno ar gyfer y Cynulliad yr wythnos honno. Dywedodd y Trefnydd y ceid datganiad gan y Prif Weinidog am sefyllfa CBAC yn ogystal â'r busnes a restrwyd. Gofynnodd Jocelyn Davies a William Graham i'r Trefnydd ystyried rhoi lle ar yr amserlen i ddadl ar y mater gan eu bod yn teimlo nad oedd datganiad yn ddigonol. Nododd y Cadeirydd fod datganiadau yn rhoi cyfle da i Aelodau graffu ar y Cabinet. Dywedodd y Trefnydd na allai ystyried cynnwys dadl ar y mater nes bod canlyniad ymchwiliad yr heddlu i'r mater yn hysbys.

### <u>Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau'n dechrau ar 5, 12 a 19 Mehefin</u>

7.2 Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC189-01).

7.3 Cyngor y Pwyllgorau i'r Trefnydd ynghylch ei ddatganiad arfaethedig ar drefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n dechrau ar 5, 12 a 19

Mehefin oedd y dylai fynd yn ei blaen fel a nodwyd yn y datganiad busnes drafft, yn amodol ar y newidiadau bach yr oedd wedi'i hamlinellu.

**8. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfod llawn**

Dim

**9. Diwygiadau i Reolau Sefydlog**

Dim

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

Dim

**11. Unrhyw fusnes arall**

Dim

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**